



Arweiniad
Cyffredinol



Asesiad Risg
Enghreifftiol ar
gyfer Rheoli
Traffig



Cynllun Rheoli Traffig
Enghreifftiol

Rheoli Diogelwch Traffig ar Safleoedd Ysgol

Dogfen 3 o 3 - Cynllun Rheoli Traffig
Enghreifftiol

Rhifyn 1

Mai 2018

Pwrpas

Mae'r Cynllun Rheoli Traffig enghreifftiol yma wedi cael ei baratoi gan Garfan Iechyd a Diogelwch Gorfforaethol y Cyngor er mwyn helpu Penaethiaid Ysgol i ddatblygu eu rhai eu hunain sy'n benodol i'w hysgolion nhw. Dylai Cynllun Rheoli Traffig gael ei baratoi yn dilyn cynnal asesiad risg ar gyfer rheoli traffig yn yr ysgol.

Mae'r Cynllun Rheoli Traffig yn ategu'r asesiad risg drwy gofnodi rheolau'r safle yn glir gan atal damweiniau, gwrthdrawiadau a niwed i bobl.

Dylai'r Cynllun Rheoli Traffig nodi'r staff sydd â chyfrifoldebau penodol, megis swyddogaethau goruchwyllo, a nodi'r hyn sydd i'w ddisgwyl gan holl ddefnyddwyr y safle, gan gynnwys staff, disgyblion, gyrrwyr bysiau / bysiau mini / tacsis, rhieni, gyrrwyr cerbydau dosbarthau a chasglu nwyddau, contractwyr ac unrhyw ymwelwyr eraill, mewn perthynas â diogelwch traffig. Dylai ymdrin â materion penodol megis terfyn cyflymder y safle, cerbydau'n symud tuag yn ôl, parcio, dosbarthu a chasglu nwyddau, sut bydd y rheolau safle yn cael eu monitro a sut bydd achosion o dorri rheolau yn cael eu hadrodd a'u trin.

Rhaid rhoi gwybod i bob person perthnasol am y Cynllun Rheoli Traffig, neu'r rhannau priodol ohono. Er enghraifft: byddai modd rhoi copi i bob aelod o staff; gallai staff priodol ddarllen trwy'u copi personol gyda'u disgyblion; gallai copi gael ei roi ar wefan yr ysgol, wedi'i arddangos yn glir, er mwyn i ddisgyblion ac ymwelwyr posibl ei weld, ynghyd â chontractwyr, rhieni, darparwyr gwasanaeth a'r rheiny sy'n gyrru eu cerbydau; gallai copi gael ei arddangos yn y dderbynfa gydag eraill ar gael ar gais; ac ati.

Mae pob ysgol yn wahanol ac mae'n amhosibl cynnwys pob agwedd ar reoli traffig mewn un ddogfen. Dydy'r enghraifft yma ddim yn ymwneud ag unrhyw ysgol benodol a bydd angen i Benaethiaid ddiwygio'r ddogfen fel ei bod hi'n addas ar gyfer eu hysgolion eu hunain.

Mae Dogfen 1 o 3 o 'Reoli Diogelwch Traffig ar Safleoedd Ysgol' yn rhoi cyfarwyddyd cyffredinol, ac mae Dogfen 2 o 3 yn rhoi enghraifft o asesiad risg ar gyfer rheoli traffig.

Mae Dogfennau 1, 2 a 3, yn ogystal â ffurflenni gwag ar gyfer asesu risg, ar gael ar *Ffynhonnell RhCT / RCT Source* a thrwy gysylltu â Charfan Iechyd a Diogelwch y Cyngor ar 01443 425531.

Pe hoffai Penaethiaid Ysgol gael rhagor o gyngor, dylen nhw gysylltu â Charfan Iechyd a Diogelwch Gorfforaethol y Cyngor.

Cynnwys

Rhif y pwnc	Disgrifiad	Tudalen
1.	Cyflwyniad	1 - 2
2.	Mynediad i'r Safle a Chynllun y Safle	3
3.	Terfyn cyflymder ar y safle	4
4.	Symud tuag yn ôl	4
5.	Cerddwyr	4
6.	Staff	5
7.	Disgyblion	5 – 6
8.	Meysydd Parcio	6
9.	Rhieni sy'n gollwng/casglu disgyblion	7
10.	Ymwelwyr	7
11.	Contractwyr / Dosbarthu a chasglu nwyddau / Casglu gwastraff ac ailgylchu / Bysiau mini'r ysgol	7 – 8
12.	Cludiant rhwng y Cartref a'r Ysgol	8
13.	Y tu allan i'r ysgol	9
14.	Goruchwylio	9
15.	Monitro cydymffurfiaeth yn unol â'r cynllun yma	9 – 10
16.	Rhoi gwybod am ddigwyddiadau a damweiniau traffig ar safleoedd	10
Atodiad 1	Trefniadau ar gyfer gollwng plant yn y bore	11 – 12
Atodiad 2	Trefniadau ar gyfer casglu plant yn y prynhawn	13 - 14

1.	Cyflwyniad
	<p>Mae Ysgol San Steffan yn safle mawr a chymhleth ac mae llawer o gerbydau yn symud ar y safle drwy gydol y dydd, yn arbennig ar ddechrau ac ar ddiwedd y diwrnod ysgol. Gall y cerbydau sy'n bresennol gynnwys ceir staff, ceir rhieni (a myfyrwyr), bysiau dan gontract, bysiau mini a thacsis a cherbydau contractwyr gan gynnwys, er enghraifft, cerbydau casglu gwastraff.</p>
	<p>Yn debyg i agweddau eraill ar iechyd a diogelwch, mae'n bwysig bod symudiadau cerbydau ar y safle yn cael eu rheoli'n gywir. Er mwyn nodi'r peryglon sy'n gysylltiedig â rheoli traffig, y man cychwyn ar gyfer yr Uwch Dîm Arwain oedd cynnal asesiad risg a oedd yn nodi'r peryglon arwyddocaol yn yr ysgol. Ar ôl trafod ymhellach, nododd yr Uwch Dîm Arwain (mewn ymgynghoriad â Charfan Cynnal a Chadw'r Cyngor, yr Adran Briffyrdd a Charfan Iechyd a Diogelwch Gorfforaethol y Cyngor) fesurau rheoli i sicrhau bod cyn lleied o risgiau ag sy'n bosibl. Mae copi o'r asesiad risg ar gael gan y Pennaeth Ysgol.</p>
	<p>Mae'r Cynllun Rheoli Traffig yma wedi cael ei baratoi i hysbysu a chyfarwyddo gweithwyr, disgyblion ac ymwelwyr ynghylch rheolau'r safle sydd ym marn yr Uwch Dîm Arwain, yn addas ac yn ddigonol i reoli symudiadau traffig yn yr ysgol. Y prif amcan yw cadw pobl yn ddiogel, yn bennaf trwy wahanu cerddwyr a cherbydau.</p>
	<p>Mae'r Uwch Dîm Arwain yn cymryd iechyd a diogelwch holl ddefnyddwyr y safle o ddirif. Felly mae'n hanfodol bod unigolion yn cymryd gofal pan fyddan nhw ar dir yr ysgol neu yng nghyffiniau tir yr ysgol, a'u bod nhw'n dilyn y cyfarwyddiadau i osgoi'r risg o gael eu hanafu. Os oes unrhyw bryderon ynghylch diogelwch traffig ar y safle neu o'i amgylch, dylai'r rhain gael eu hadrodd i'r Pennaeth Ysgol.</p>
	<p>Mae'r cyfarwyddiadau yn y Cynllun Rheoli Traffig yma yn ffurfio rheolau'r safle. Gall disgyblion a staff sy'n torri rheolau'r safle fod yn destun camau disgyblu. Bydd staff yn cael copi o'r Cynllun Rheoli Traffig yma yn ystod eu cyfnod ymsefydlu, a phob hyn a hyn yn ôl yr angen. Bydd y disgyblion yn cael gwybod am y rhannau perthnasol ar ddechrau'r flwyddyn academaidd neu pan fyddan nhw'n cofrestru am y tro cyntaf yn yr ysgol, os yw hynny'n digwydd y tu allan i ddechrau'r flwyddyn academaidd. Cyfrifoldeb y Pennaeth Blwyddyn perthnasol yw hyn.</p>
	<p>Bydd rhannau perthnasol o'r Cynllun Rheoli Traffig yma'n cael eu defnyddio i hysbysu rhieni, contractwyr, cwmnïau dosbarthu, gwasanaethau bws dan gontract, staff y gegin, staff glanhau ac ymwelwyr eraill o'r trefniadau rheoli traffig yn yr ysgol.</p>

	<p>Dydy'r ysgol ddim o dan rwymedigaeth i'r staff neu'r rhieni i ddarparu cyfleusterau parcio ar gyfer eu cerbydau. Yr opsiwn mwyaf diogel ar gyfer yr ysgol fyddai cau'r gatiau fel na fyddai modd i rieni ddod â'u ceir ar y safle ac fel y byddai symudiadau traffig yn cael eu lleihau ar dir yr ysgol. Serch hynny, mae'r Uwch Dîm Arwain yn cydnabod y byddai cau'r gatiau i gerbydau yn effeithio ar yr ardal leol yn ystod oriau brig ac felly, maen nhw wedi paratoi'r mesurau rheoli sydd yn y Cynllun Rheoli Traffig yma yn lle hynny. Noder y gall peidio â chydymffurfio â rheolau'r safle olygu gwahardd mynediad i gerbydau'r rheiny sydd ddim yn dilyn rheolau'r safle, neu hyd yn oed, gau'r gatiau i bob cerbyd.</p>
	<p>Mae modd cael copi electronig o'r Cynllun Rheoli Traffig yma ar wefan yr ysgol (insert here clear and specific instructions on how to access it).</p> <p>Mae copi caled yn cael ei arddangos yn y dderbynfa. Ddylai'r copi sy'n cael ei arddangos ddim cael ei symud - bydd copïau ychwanegol ar gael yn y dderbynfa.</p>

- | | |
|----|--|
| 2. | Mynediad i'r safle / Cynllun y safle (dylai'r adran yma gael ei defnyddio i ddarparu cynllun sy'n dangos y mesurau rheoli traffig yn yr ysgol, gan gynnwys, manau gollwng, croesfannau, allanfeydd, mynedfeydd, system unffordd ac ati) |
|----|--|

ENGHTRAIFET

3.	Terfyn cyflymder ar y safle
	<p>Ffactor arwyddocaol yn y rhan fwyaf o ddamweiniau traffig yw cyflymder y cerbyd. Mae'r ffactor yma hefyd yn effeithio'n sylweddol ar ddifrifoldeb unrhyw anafiadau mae cerddwyr yn eu cael. Felly, mae'r ysgol yn gweithredu terfyn cyflymder uchaf llym o 5MYA drwy'r ysgol. Mae disgwyl i yrwyr lynu at y terfyn cyflymder (yn ogystal â'r holl reolau safle eraill) a gyrru mewn modd priodol gan ystyried cerddwyr, amodau tywydd lleol a thraffig arall ar y safle.</p>
4.	Symud tuag yn ôl
	<p>Mae gyrru cerbydau tuag yn ôl yn ffactor arwyddocaol mewn nifer o ddamweiniau angheuol. Rhaid osgoi symud tuag yn ôl ar safle'r ysgol cyn belled ag y bo hynny'n ymarferol. Os am gyflawni hyn, rhaid i gerbydau ddod i mewn i'r safle drwy gât A, dilyn system unffordd ar y safle, a gadael drwy gât B. Lle nad oes modd osgoi symud tuag yn ôl - er enghraifft, lle mae nwyddau yn cael eu dosbarthu i geginau a does dim modd gyrru drwodd - rhaid i yrwyr ddefnyddio pob cymorth sydd ar gael iddyn nhw megis larymau, teledu cylch cyfyng ar y dangosfwrdd, cynorthwywyr symud tuag yn ôl (banesmyn) ac ati, i sicrhau bod yr ardal yn glir cyn symud tuag yn ôl. Rhaid peidio â gyrru cerbyd tuag yn ôl yn ystod y cyfnod gollwng plant cyn i'r ysgol ddechrau a'r cyfnod casglu plant ac ar ôl yr ysgol. Rhaid i unrhyw gerddwyr sydd yng nghyffiniau ardal lle mae cerbydau yn cael eu symud tuag yn ôl, sefyll mewn lle diogel sydd i ffwrdd o'r manau mwyaf peryglus.</p>
5.	Cerddwyr
	<p>Rhaid i gerddwyr ddefnyddio'r mynedfeydd dynodedig yn unig sef gatiâu A a B i gerddwyr. Mae angen i gerddwyr gofio bod y gatiâu yma'n gyfagos i'r gatiâu ar gyfer cerbydau ac y bydd y rhain yn cael eu defnyddio yn ystod cyfnodau brig. Rhaid iddyn nhw felly fod yn ofalus iawn. Ddylai disgyblion ddim defnyddio'r gatiâu i gerbydau o dan unrhyw amgylchiadau oherwydd bod risg sylweddol o wrthdrawiad.</p>
	<p>Mae llwybrau troed amrywiol o gwmpas yr ysgol ac ar y safle a rhaid i gerddwyr sicrhau eu bod nhw'n defnyddio'r rhain mewn modd diogel gan ofalu nad ydyn nhw'n camu ar y priffyrdd cyhoeddus nac ar y llwybrau cerbydau sydd ar y safle. Rhaid i ddisgyblion sy'n cerdded mewn grwpiau ystyried hyn a gadael i ddefnyddwyr eraill fynd heibio mewn modd diogel. Rhaid i gerddwyr ddefnyddio'r croesfannau sebra lle maen nhw'n cael eu darparu. Mae cyrbau isel yn cael eu darparu ym mhob rhan o'r safle ar gyfer defnyddwyr cadeiriau olwyn.</p>
	<p>Ar ôl cyrraedd yn y bore, mae mynediad i'r ysgol dim ond ar gael drwy'r dderbynfa, drwy'r gampfa a'r bloc gwyddoniaeth. Yn yr un modd, mae'r un</p>

	peth yn berthnasol wrth adael yr adeiladau ar ddiwedd y diwrnod ysgol.
6.	Staff
	A hwythau'n oedolion cyfrifol, rhaid i staff osod esiampl dda, yn arbennig i ddisgyblion, ond hefyd i eraill, trwy gydymffurfio â holl reolau'r safle. Mae hyn yn cynnwys ufuddhau i'r terfyn cyflymder, parcio yn y maes parcio dynodedig i staff (maes parcio 1) a pheidio â pharcio yn driphlith draphlith ar y safle, a defnyddio llwybrau i gerddwyr ar ôl dod allan o'u cerbydau. Rhaid i staff gofio nad yw rhai disgyblion (yn arbennig rhai ifainc) yn effro i'r risgiau sy'n gysylltiedig â symudiadau traffig a rhaid iddyn nhw ystyried hyn wrth yrru ar safle'r ysgol neu yn ei hymyl.
	Rhaid i bob aelod o staff, p'un a ydyn nhw'n ymgymryd â dyletswyddau goruchwyllo a monitro ffurfiol neu beidio, adrodd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheolau'r safle maen nhw'n eu gweld i'r person perthnasol.
7.	Disgyblion
	<p>Mae'n bwysig iawn bod disgyblion yn gosod esiampl dda i eraill, yn enwedig yn yr ysbryd o fod yn ysgol ddiogel. Mae nifer o reolau y dylai'r disgyblion fod yn effro iddyn nhw:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dylai disgyblion sy'n cerdded gofio nad oes hawl iddyn nhw ddefnyddio'r fynedfa a'r allanfa ar gyfer cerbydau o dan unrhyw amgylchiadau. Er y gall hyn ymddangos yn ffordd gyflym i fynd ar y safle, wrth wneud hyn, bydd disgyblion yn torri'r rheolau ac yn peryglu eu diogelwch eu hunain a diogelwch pobl eraill; • Bydd disgyblion sy'n cael eu gweld yn dringo ffensys, rheiliau neu waliau, yn peidio â dilyn cyfarwyddiadau'r staff mewn perthynas â'r safle, yn peidio â chadw at gynnwys y cynllun yma, yn torri rheolau'r safle a gallen nhw fod yn destun camau disgyblu; • Wrth groesi ffyrdd ar safle'r ysgol, rhaid i ddisgyblion ddefnyddio'r croesfannau sebra sy'n cael eu darparu; • Rhaid i ddisgyblion syn cael eu gollwng gan rieni ddod allan o'r cerbyd ar ochr y pafin lle bynnag y bo'n ymarferol; • Rhaid i ddisgyblion osgoi defnyddio clustffonau gan y gall hyn olygu na fyddan nhw'n clywed sŵn cerbydau'n symud; • Rhaid i ddisgyblion sicrhau eu bod nhw'n stopio, yn edrych ac yn gwrandao cyn croesi ffyrdd, yn enwedig wrth wisgo siaced â chwfl neu ddillad tebyg, sy'n golygu ei bod hi'n anodd gweld traffig yn dod o'r ochr; • Wrth ddefnyddio'r llwybrau troed - cerdded ac nid rhedeg. Bydd hyn yn osgoi damweiniau ac yn eich gwneud chi'n fwy effro i'r hyn sy'n digwydd o'ch cwmpas;

	<ul style="list-style-type: none"> • Rhaid i ddisgyblion beidio ag ymgynnull mewn meysydd parcio, cilfachau parcio ar gyfer bysiau, ger mynedfeydd ac allanfeydd neu ar lwybrau i gerbydau ac ati.
	<p>Rhaid i ddisgyblion ddilyn cyfarwyddiadau'r staff a bod yn effro i'r canlynol wrth fynd i'r ardal parcio bysiau:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rhaid i'r bysiau fod wedi'u stopio yn gyfan gwbl cyn mynd arnyn nhw neu ddod allan ohonyn nhw; • Rhaid i ddisgyblion werthfawrogi efallai nad oes modd i yrwyr bysiau weld cerddwyr sydd allan o'u golwg uniongyrchol a rhaid iddyn nhw ymddwyn mewn modd cyfrifol; • Rhaid i ddisgyblion ddefnyddio'r llwybrau troed dynodedig o gwmpas y cilfachau parcio i fysiau yn unig; • Rhaid i ddisgyblion beidio â cherdded ar y cilfachau parcio i fysiau ar unrhyw adeg, oni bai eu bod nhw'n mynd ar y bus neu yn dod allan ohono; • Rhaid i ddisgyblion ganiatáu i staff / gyrwyr gyflawni eu dyletswyddau heb dynnu'u sylw ac ymddwyn yn dda tra eu bod nhw ar y bus. Mae hyn yn sicrhau y gall cerbydau adael yn brydlon a bod y siwrnai yn gyfforddus i bawb.
8.	Meysydd Parcio
	<p>Mae nifer o feysydd parcio ar dir yr ysgol. Mae Maes Parcio 1 ar gyfer staff yr ysgol yn unig. Mae dwy gilfach parcio ar gyfer yr anabl yn y maes parcio yma. Mae system unffordd ar waith yn y maes parcio yma a dylai pob aelod o staff gydymffurfio â'r trefniadau lleol.</p> <p>Does dim manau parcio dynodedig ar gyfer cerbydau disgyblion ar dir yr ysgol. Serch hynny, caiff disgyblion ofyn am ganiatâd gan yr Uwch Dîm Arwain, ond oherwydd diffyg manau parcio, dim ond nifer fach ohonyn nhw fydd ar gael drwy gydol y flwyddyn academaidd.</p> <p>Mae Maes Parcio 2 (Maes Parcio i Ymwelwyr) at ddefnydd ymwelwyr yn unig. Mae tair cilfach parcio ar gyfer yr anabl yn y maes parcio yma.</p> <p>Does dim hawl i gerbydau symud yn ystod y cyfnod gollwng plant yn y bore (08:00 - 08:20) a'r cyfnod casglu plant yn y prynhawn (15:00 - 15:20). Fydd cerbydau ddim yn cael gadael unrhyw un o'r meysydd parcio yn ystod y cyfnodau yma.</p> <p>Dylai gyrwyr yrru'n araf o gwmpas yr ysgol ac o fewn y meysydd parcio bob amser ac o fewn y terfyn cyflymder 5MYA dynodedig.</p>

	<p>Mae disgwyl i staff ymddwyn mewn modd cyfrifol ar y safle wrth barcio a mynd i mewn i adeiladau'r ysgol. Os ydyn nhw'n gweld rhywun sydd wedi parcio'n anghyfreithlon, dylen nhw roi gwybod i dderbynnydd yr ysgol neu i Reolwr Busnes yr ysgol a fydd wedyn yn hysbysu/atgoffa'r gyrrwr dan sylw o'r defnydd cywir o'r safle. Rhaid i'r holl aelodau o staff roi cofrestrifau eu ceir fel y bydd modd cysylltu â nhw os oes angen.</p>
9.	Rhieni sy'n gollwng/casglu disgyblion
	<p>Does dim hawl i gerbydau sy'n cael eu gyrru gan rieni i fynd ar y safle yn ystod y cyfnodau gollwng a chasglu plant. Mae gât A (mynediad i gerbydau) ar gau i gerbydau contract rhwng 07:50 a 08:30 yn y bore, a rhwng 14:50 a 15:30 yn y prynhawn. Mae'r gât yn cael ei goruchwyllo gan aelod o staff. Yn ystod y cyfnodau yma, bydd yr aelod o staff yn agor y gât i gerbydau ysgol sy'n cludo plant yn unig. Fydd dim mynediad i gerbydau diawdurdod a bydd gyrrwyr yn cael eu hysbysu'n gwrtais am hyn. Mae rhieni wedi cael eu hysbysu am hyn drwy neges destun a thrwy lythyr i'r cartref. Fydd unrhyw gerbydau sydd ar y safle eisoes ddim yn cael gadael hyd nes i'r gât gael ei hailagor.</p>
10.	Ymwelwyr
	<p>Rhaid i ymwelwyr barcio yn y cilfachau dynodedig yn y maes parcio i ymwelwyr. Bydd gwneud hynny yn caniatáu i gerbydau eraill symud heb rwystr yn ystod y diwrnod ysgol. Os nad oes cilfachau parcio ar gael, yna, dylai ymwelwyr barcio'n ddiogel yn y gymuned leol. Rhaid i bob ymwelydd gydymffurfio â'r terfyn cyflymder uchaf 5MYA ar y safle, yn ogystal â'r holl reolau traffig eraill ar y safle. Does dim hawl i barcio yn y cilfachau bysiau ar unrhyw adeg, hyd yn oed am y cyfnod mwyaf byr.</p>
	<p>Mae'n ofynnol i ymwelwyr lofnodi llyfr wrth gyrraedd a nodi cofrestrif eu cerbydau. Dylai ymwelwyr lofnodi wrth adael hefyd a mynd allan drwy'r brif fynedfa. Caiff ymwelwyr anabl barcio yn un o'r cilfachau i'r anabl sydd ym maes parcio'r ymwelwyr.</p>
11.	Contractwyr / Dosbarthu a chasglu nwyddau / Casglu gwastraff ac ailgylchu / Bysiau mini'r ysgol
	<p>Contractwyr a gyrrwr sy'n dosbarthu nwyddau</p> <p>Rhaid i yrwyr cerbydau contract a cherbydau dosbarthu nwyddau fynd yn syth i'r dderbynfa yn y prif adeilad i roi gwybod am natur eu hymweliad, i gael gwybodaeth ynglŷn â lle mae modd iddyn nhw barcio ac i gofnodi manylion</p>

	<p>cofrestru eu cerbydau. I ddechrau, dylen nhw barcio yn y gilfach lwytho y tu allan i'r dderbynfa. Rhaid i yrwyr naill ai gael copi o'r cynllun yma er mwyn cyfeirio ato os oes angen, neu dylen nhw gael eu hysbysu o reolau'r safle mewn perthynas â'r ardal maen nhw'n parcio ynddi ar y pryd, gan ddibynnu ar natur eu hymweliad. Rhaid i bob gyrrwr gydymffurfio â'r terfyn cyflymder uchaf 5MYA ar y safle, yn ogystal â'r holl reolau traffig eraill. Rhaid cytuno ar drefniadau parcio ar gyfer contractwyr sy'n gwneud gwaith adeiladu tymor hir ar y safle cyn dechrau'r gwaith.</p>
	<p>Casgliadau Sbwriel ac Ailgylchu</p> <p>Mae pob casgliad sbwriel ac ailgylchu yn cael ei wneud cyn 7:30am pan fydd neb ond y gofalwr / rheolwr y safle ar y safle. Mae'r ardal ar gyfer gwastraff y tu ôl i'r gegin - bydd y gofalwr / rheolwr y safle yn datglo'r ardal yma pan fydd y cerbyd yn cyrraedd. Bydd y gofalwr / rheolwr y safle yn sefyll mewn ardal ddiogel os oes angen i'r cerbyd symud tuag yn ôl. Rhaid i yrwyr cerbydau sbwriel/ailgylchu ddefnyddio cynorthwywyr (bancsmyn) pan fyddan nhw'n symud tuag yn ôl. Rhaid i bob cerbyd sbwriel ac ailgylchu gydymffurfio â'r terfyn cyflymder uchaf 5MYA ar y safle, yn ogystal â'r holl reolau traffig eraill.</p>
	<p>Bysiau mini'r ysgol</p> <p>Mae gan yr ysgol ddau fws mini ac mae'r rhain yn cael eu parcio yn eu cilfachau dynodedig eu hunain ger y neuadd chwaraeon. Dim ond staff awdurdodedig sydd â hawl i yrru'r bysiau yma a rhaid eu parcio bob amser yn eu cilfachau parcio dynodedig pan nad ydyn nhw'n cael eu defnyddio. Rhaid i staff sy'n gyrru'r bysiau yma ar dir yr ysgol ddilyn rheolau'r safle. Rhaid peidio â gyrru bysiau mini ar y safle yn ystod y cyfnod gollwng plant yn y bore a'r cyfnod casglu plant yn y prynhawn.</p>
12.	<p>Cludiant rhwng y Cartref a'r Ysgol</p>
	<p>Mae'r Uwch Dîm Arwain wedi dynodi tair cilfach ar gyfer y bysiau cludo plant o'r cartref i'r ysgol yn unig yn ystod y dydd. Does dim hawl i unrhyw gerbyd arall stopio neu gael ei barcio yn y cilfachau yma. Mae gan yr ysgol 5 bws sydd â 52 sedd yr un, sy'n cyrraedd yr ysgol yn y bore ac yn gadael yr ysgol yn y prynhawn yn ystod y cyfnodau gollwng a chasglu.</p> <p>Rhaid i'r bysiau fod wedi stopio yn gyfan gwbl cyn i'r disgyblion ddod allan ohonyn nhw neu fynd arny'n nhw. Dylai'r injans gael eu diffodd oni bai fod rheswm diogelwch dilys dros beidio â'u diffodd. Dim ond pan fydd y disgyblion/cerddwyr i gyd wedi mynd o ardal y cilfachau, neu ar ôl iddyn nhw fynd ar y bws, y caiff gyrrwyr symud allan o'r cilfachau parcio, gan ddilyn</p>

	<p>trefniadau cytunedig goruchwyliwr yr ysgol. Rhaid i bob bws gydymffurfio â'r terfyn cyflymder uchaf 5MYA ar y safle, yn ogystal â'r holl reolau traffig eraill.</p> <p>Mae gan yr ysgol 2 fws mini a 3 thacsi o dan gontract sy'n cludo disgyblion amrywiol. Rhaid i ddisgyblion ddod allan o'r tacsis a'r bysiau mini yn y cilfachau dynodedig y tu allan i'r brif dderbynfa.</p>
13.	Y tu allan i'r ysgol
	<p>Mae'r ysgol yn derbyn nad yw parcio ger yr ysgol yn hawdd. Mae'r strydoedd preswyl y tu allan i'r ysgol yn cael eu defnyddio gan fysiau i'r cyhoedd a thraffig arall i mewn i'r ardal gyfagos ac allan ohoni. Mae'n bwysig bod yr ysgol yn gymydog ystyriol i drigolion lleol. Lle na all rhieni neu warcheidwaid fynd â'u ceir ar safle'r ysgol, rydyn ni'n gofyn iddyn nhw beidio â pharcio yn uniongyrchol y tu allan i'r ysgol. Yn hytrach, dylen nhw ollwng eu plant yn bellach i ffwrdd, mewn lleoliad diogel, a gadael iddyn nhw gerdded am weddill y daith. Rydyn ni'n atgoffa disgyblion i gerdded o amgylch y safle a mynd i mewn iddo drwy'r gatiâu dynodedig i gerddwyr, sef gât A a B.</p>
	<p>Mae croesfannau pelican wedi'u lleoli ger gât A a B ac rydyn ni'n annog disgyblion i'w defnyddio. Rydyn ni'n gofyn i yrwyr gadw'r ffordd y tu allan i bob mynedfa'n glir er mwyn gadael i gerbydau fynd heibio'n ddiogel. Rydyn ni'n gofyn i yrwyr beidio â pharcio'n driphlith draphlith, er enghraifft, ar bafinau, parcio ochr yn ochr â cheir eraill, stopio ar linellau melyn dwbl, rhwystro mynedfeydd a pharcio ger cyffyrdd, oherwydd bod hyn yn rhoi disgyblion a defnyddwyr ffordd eraill mewn perygl. Gall damweiniau ddigwydd os nad oes modd gweld yn glir ac os oes rhaid i gerddwyr gerdded rhwng cerbydau sydd wedi'u parcio. Yn ogystal â hynny, gall y ffyrdd fynd yn orlawn a gall hyn achosi drwgdeimlad ymhlith preswylwyr ac oedi i wasanaethau a theithiau sy'n mynd rhagddyn nhw.</p>
14.	Goruchwylio
	<p>Y Dirprwy Bennaeth sy'n gyfrifol am sicrhau bod amserlen ar gyfer goruchwylio'r traffig yn cael ei pharatoi a bod nifer ddigonol o oruchwylwyr ar ddyletswydd ar yr adegau ac yn y lleoliadau dynodedig. Rhaid i'r Dirprwy Bennaeth sicrhau bod yr holl staff goruchwylio wedi cael yr wybodaeth briodol a'r hyfforddiant sy'n berthnasol i'w swyddogaethau. Dylai'r wybodaeth/hyfforddiant yma gynnwys sut i sicrhau eu diogelwch eu hunain wrth ymgymryd â'r dyletswyddau yma. Rhaid i staff goruchwylio sefyll mewn lleoliad diogel wrth ymgymryd â'u swyddogaethau. Rhaid gwisgo gwisgoedd neu siacedi llachar wrth gyflawni'r dyletswyddau yma.</p>

15.	Monitro cydymffurfiaeth yn unol â'r cynllun yma
	<p>Mae swyddogaethau'r Uwch Dîm Arwain a staff eraill yn allweddol wrth fonitro'r cynllun. Mae gan bob aelod o staff gyfrifoldeb i sicrhau eu bod nhw'n gweithredu yn y fath fodd fel nad ydyn nhw'n peryglu eu hiechyd a'u diogelwch eu hunain neu iechyd a diogelwch pobl eraill. Yn ogystal â'r trefniadau goruchwylio sydd ar waith, bydd yr Uwch Dîm Arwain yn cynnal archwiliadau misol er mwyn gweld yr hyn sy'n digwydd yn ddyddiol. Bydd canlyniadau'r archwiliadau yma'n cael eu cofnodi, gan gynnwys manylion unrhyw achosion o beidio â chydymffurfio. Yn yr un modd, bydd manylion unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio sy'n cael eu nodi ar adegau eraill hefyd yn cael eu cofnodi.</p> <p>Ymdrinnir â materion traffig a gyrru sy'n deillio o ymddygiad rhieni, contractwyr, gyrrwyr dosbarthu, staff glanhau ac arlwyo a/neu bydd y materion yma'n cael eu dwysáu gan Reolwr Busnes yr ysgol.</p> <p>Pennaeth y Flwyddyn fydd yn gyfrifol am fynd i'r afael ag ymddygiad disgyblion lle nad yw'n gyson â gofynion y Cynllun Rheoli Traffig yma.</p> <p>Bydd materion sy'n ymwneud â chludiant i'r ysgol yn cael eu hadrodd i'r Uned Trafnidiaeth Integredig. Bydd materion sy'n ymwneud â gweithwyr y contractwyr, gyrrwyr cerbydau dosbarthu ac ati yn cael eu hadrodd i'r cyflogwr perthnasol. Y Pennaeth Ysgol fydd yn delio â'r holl faterion sy'n ymwneud â'r staff. Y Rheolwr Busnes fydd yn cydlynu'r swyddogaeth yma ac yn sicrhau bod asesiad risg rheoli traffig yr ysgol a'r Cynllun Rheoli Traffig yma yn cael eu diweddarau fel eu bod nhw'n nodi unrhyw newidiadau i'r trefniadau yn yr ysgol o ran rheoli traffig.</p>
16.	Rhoi gwybod am ddigwyddiadau a damweiniau traffig ar safleoedd
	<p>I gychwyn, dylai digwyddiadau a damweiniau gael eu hadrodd i reolwr y safle. Bydd y rheolwr wedyn yn rhoi gwybod i Garfan Iechyd a Diogelwch Gorfforaethol y Cyngor drwy ddefnyddio'r Ffurflen Cofnod Ymchwiliad i Ddigwyddiad/Damwain a Niwed HS5(A).</p>

Atodiad 1 – Trefniadau ar gyfer gollwng plant yn y bore

Trefniadau ar gyfer gollwng plant yn y bore
<p>Bore</p> <p>Yn ystod y bore, bydd 5 bws sydd â 52 o seddi yr un yn cyrraedd/gadael yr ysgol rhwng 08:00 ac 8:20. Bydd y bysiau yn cyrraedd drwy gât A ac yn parcio yn y cilfachau parcio dynodedig, sydd y tu allan i'r bloc gwyddoniaeth. Pan fydd y bysiau wedi dod i stop, mae'r gyrrwr yn rhoi gwybod i'r disgyblion y cân nhw fynd oddi ar y bws. Bydd disgyblion yn mynd yn syth ar y llwybr troed ar ôl dod i lawr oddi ar y bws ac yn mynd i'w dosbarthiadau cofrestru. Unwaith y bydd pob disgybl wedi dod oddi ar y bysiau, bydd y bysiau'n cael eu gyrru oddi ar y safle gan ddilyn y system unffordd a gadael trwy gât B.</p> <p>Bydd o leiaf 3 goruchwyliwr ar ddyletswydd yn ystod y cyfnod yma. Bydd un goruchwyliwr yn monitro'r groesfan i gerddwyr sydd yn uniongyrchol y tu mewn i gât A i sicrhau nad yw'r disgyblion yn rhedeg ar draws y groesfan o flaen cerbydau sydd yn cyrraedd. Bydd y goruchwyliwr yn annog disgyblion i symud i ffwrdd o'r groesfan a mynd i'w dosbarthiadau cofrestru ar y llwybr dynodedig.</p> <p>Bydd yr ail oruchwyliwr (ac unrhyw oruchwyliwr ychwanegol) yn cael eu lleoli ger y cilfachau parcio i fysiau er mwyn goruchwyllo'r disgyblion sy'n dod oddi ar y bysiau, ac yn sicrhau eu bod nhw'n mynd i gyfeiriad eu dosbarthiadau cofrestru. Bydd y goruchwyliwr yma'n annog disgyblion (sydd efallai'n aros am eu ffrindiau i gyrraedd) i symud i ffwrdd o ymyl y ffordd i leoliad diogel ar y llwybr troed.</p> <p>Bydd y trydydd goruchwyliwr yn monitro'r groesfan i gerddwyr sydd yn uniongyrchol y tu mewn i gât B i sicrhau nad yw'r disgyblion yn rhedeg ar draws y groesfan o flaen cerbydau sy'n gadael.</p> <p>Mae 3 cilfach ddynodedig ar gyfer bysiau ond ambell waith, bydd y tair cilfach yma'n llawn pan fydd pedwerydd bws yn cyrraedd. Yn yr achos yma, rhaid i'r pedwerydd bws aros hyd nes i'r drydedd gilfach ddod yn wag ac mae'r holl gerddwyr wedi symud i ffwrdd o'r ardal. Dim ond bryd hynny y bydd y pedwerydd bws yn cael ei alw ymlaen i ollwng y disgyblion ar y llwybr troed.</p> <p>Rhaid i'r ddau oruchwyliwr gario radio er mwyn cyfathrebu â'i gilydd, yn ogystal â bod mewn cysylltiad â'r dderbynfa a/neu reolwr y safle. Mae rhaid bod modd i draffig weld staff sy'n goruchwyllo yn hawdd - rhaid iddyn nhw felly wisgo siacedi llachar. Os nad yw'r goruchwyliwr dynodedig ar gael am ba bynnag reswm, rhaid i'r Dirprwy Bennaeth benodi aelod arall o staff.</p>

Dyletswyddau cyffredinol y goruchwylwyr

Dylai staff fod yn rhagweithiol wrth oruchwyllo. Bydd y dyletswyddau cyffredinol yn cynnwys:

- herio parcio diawdurdod neu amhriodol sy'n achosi perygl neu dagfa;
- tywys cerddwyr i ffwrdd o ardaloedd peryglus;
- goruchwyllo'r bysiau wrth iddyn nhw ollwng a chasglu disgyblion gan benderfynu pryd mae hi'n ddiogel iddyn nhw symud o'r cilfachau parcio, er enghraifft;
- herio cerbydau sy'n mynd yn rhy gyflym a rhoi gwybod amdanyn nhw;
- herio gyrwyr a cherddwyr sy'n anwybyddu'r arwyddion/cyfarwyddiadau neu'n torri'r rheolau mewn unrhyw ffordd arall, sy'n defnyddio ffonau symudol neu'n ymddwyn mewn ffordd amhriodol, a rhoi gwybod am y rhain.

ENGHTRAIFF

Atodiad 2 – Trefniadau ar gyfer casglu plant yn y prynhawn

Trefniadau ar gyfer casglu plant yn y prynhawn
<p>Yn y prynhawn, bydd 5 bws sydd â 52 o seddi yr un yn cyrraedd/gadael yr ysgol rhwng 15:00 ac 15:20. Bydd y bysiau yn cyrraedd drwy gât A ac yn parcio yn y cilfachau parcio dynodedig, sydd y tu allan i'r bloc gwyddoniaeth. Does dim angen symud tuag yn ôl. Bydd pob bws wedi'i barcio ac yn ddisymud pan fydd y gloch ddiwedd dydd yn canu. Bydd y disgyblion yn gadael adeilad yr ysgol o'r allanfeydd perthnasol a bydd y rheiny sy'n cael eu cludo ar y bysiau yn cerdded tuag yr ardal fysiau. Fydd dim hawl i gerbydau symud o gwbl yn yr ardal fysiau yn ystod y cyfnod yma.</p> <p>Bydd o leiaf 3 goruchwyliwr ar ddyletswydd yn ystod y cyfnod yma. Bydd un goruchwyliwr yn monitro'r groesfan i gerddwyr sydd yn uniongyrchol y tu mewn i gât A i sicrhau nad yw'r disgyblion yn rhedeg ar draws y groesfan o flaen cerbydau sydd yn cyrraedd.</p> <p>Bydd yr ail oruchwyliwr yn cael ei leoli ger y cilfachau parcio i fysiau er mwyn goruchwylio disgyblion sy'n mynd ar eu bysiau gan ofyn iddyn nhw wneud hynny ar unwaith.</p> <p>Bydd y trydydd goruchwyliwr yn monitro'r groesfan i gerddwyr sydd yn uniongyrchol y tu mewn i gât B i sicrhau nad yw'r disgyblion yn rhedeg ar draws y groesfan o flaen cerbydau sy'n gadael.</p> <p>Unwaith y bydd yr holl fysiau'n llawn, byddan nhw'n gadael yn y drefn y maen nhw wedi cael eu parcio, gan ddilyn y system unffordd a gadael drwy gât B. Fydd dim symud tuag yn ôl a rhaid i'r bysiau beidio â chael y blaen ar ei gilydd wrth adael safle'r ysgol. Yn dilyn ymgynghori â'r goruchwylwyr eraill, bydd Goruchwyliwr 2 yn penderfynu pryd mae hi'n ddiogel i adael i'r bysiau symud o'r safle. Yn gyffredinol, bydd hyn pan fydd yr holl ddisgyblion ar eu bysiau priodol a does dim cerddwyr ar y llwybr traffig na cherbydau sy'n symud arno.</p> <p>Rhaid i'r ddau oruchwyliwr gario radio er mwyn cyfathrebu â'i gilydd, yn ogystal â bod mewn cysylltiad â'r dderbynfa a / neu reolwr y safle. Mae rhaid bod modd i draffig weld staff sy'n goruchwylio yn hawdd - rhaid iddyn nhw felly wisgo siacedi llachar. Os nad yw'r goruchwyliwr dynodedig ar gael am ba bynnag reswm, rhaid i'r Dirprwy Bennaeth benodi aelod arall o staff.</p> <p>Dyletswyddau cyffredinol y goruchwylwyr</p>

Dylai staff fod yn rhagweithiol wrth oruchwylio. Bydd y dyletswyddau cyffredinol yn cynnwys:

- herio parcio diawdurdod neu amhriodol sy'n achosi perygl neu dagfa;
- tywys cerddwyr i ffwrdd o ardaloedd peryglus;
- goruchwylio'r bysiau wrth iddyn nhw ollwng a chasglu disgyblion gan benderfynu pryd mae hi'n ddiogel iddyn nhw symud o'r cilfachau parcio, er enghraifft;
- herio cerbydau sy'n mynd yn rhy gyflym a rhoi gwybod amdany'n nhw;
- herio gyrwyr a cherddwyr sy'n anwybyddu'r arwyddion/cyfarwyddiadau neu'n torri'r rheolau mewn unrhyw ffordd arall, sy'n defnyddio ffonau symudol neu'n ymddwyn mewn ffordd amhriodol, a rhoi gwybod am y rhain.

ENGHRAIFFT

ENGHRAIFFET